

# GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU

## CYNLLUN CORFFORAETHOL CYNGOR RHONDDA CYNON TAF 2024-2030

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw'r Cynllun Llesiant ar gyfer Rhondda Cynon Taf fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

RHONDDA CYNON TAF

# CYNNWYS

TUDALEN


1 CYFLWYNIAD 4

2 YNGLŶN Â RHONDDA CYNON TAF 7

3 GWELEDIGAETH A PHWRPAS 9

4 EIN DULL A'N GWERTHOEDD 10

5 GWRANDO AR YR HYN RYDYCH CHI'N EI DDWEUD A'I GLYWED 11

6 EIN HAMCANION LLESIANT

POBL A CHYMUNEDAU 14

GWAITH A BUSINESS 20

BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD 26

DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG 32

7 CYNGOR SY'N CAEL EI REDEG YN DDA 38

1 ATODIAD 1 40


Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

You are welcome to communicate with us in Welsh

52576-41 • 2024

# DATGANIAD YR ARWEINYDD



**Mae'n bleser gen i gyflwyno trydydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r cynllun yma'n adeiladu ar seiliau cadarn ein cynlluniau blaenorol ac yn cydnabod y newidiadau y mae angen inni eu gwneud i gwrdd â'r heriau digynsail o ran gwasanaethau a chyllid sydd o'n blaenau.**

Pan roddon ni ein hail Gynllun Corfforaethol ar waith yn 2020, Gwneud Gwahaniaeth, ni allen ni fod wedi rhagweld yr heriau y byddai ein trigolion, cymunedau a busnesau yn eu wynebu yn y blynyddoedd oedd i ddod o ganlyniad i Storm Dennis a'r pandemig Covid yn fuan wedi hynny. Yn ystod y cyfnod yma, rydyn ni wedi gweld cryfder a chydnerthedd ein cymunedau ac wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid yn y sector cymunedol a gwirfoddol, busnes a'r sector cyhoeddus i gadw ein trigolion yn ddiogel a'u cynorthwyo.

Bydd llawer o wahanol effeithiau llifogydd 2020 a'r pandemig Covid ar ein trigolion a'n busnesau yn aros gyda ni am flynyddoedd i ddod. Ochr yn ochr â'r pandemig, mae effaith gwrthdaro byd-eang ac ansefydlogrwydd economaidd ar ein costau ynni, yr argyfwng costau byw parhaus a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau mawr yn golygu ein bod ni'n symud i gyfnod arall a fydd yn heriol iawn.

Er gwaethaf yr heriau yma, rydyn ni wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni yn 2020 ac wedi buddsoddi dros £450 miliwn (2019/20-2022/23

**Rydyn ni wedi llwyddo i:**

- **POBL...** agor tai gofal ychwanegol newydd yng Nghwrt yr Orsaf, Pontypridd, gyda safleoedd Gofal Ychwanegol y Porth a'r Gelli ar y gweill, cwblhau Trac Athletau Siôr V, parhau â gwaith i sefydlu caeau 3G, mannau chwarae a pharciau a hybiau cymunedol.
- **LLEOEDD...** parhau â'n rhaglen ffyrdd a phontydd gan gynnwys y Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar a deuoli'r A4119, atgyweirio ac adnewyddu amddiffynfeydd rhag llifogydd ledled y Fwrdeistref Sirol, gwella Parciau Gwledig Ynysangharad a Chwm Dâr, datblygu Hwb Trafnidiaeth Porth a chyfleuster ailgylchu deunyddiau ym Mryn Pica.
- **FFYNIANT...** parhau i wella adeiladau a chyfleusterau ysgolion trwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, cwblhau ein datblygiad arobryn yn Llys Cadwyn, gan gynnwys y bont droed newydd, ym Mhontypridd ac Unedau Diwydiannol newydd yng Nghoed Elái a Thresalem.

➔ **Mae rhagor o fanylion am ein cyflawniadau ers 2020 yn adroddiad Hunanasesu Blynyddol y Cyngor 2022/23.** **www.rctcbc.gov.uk/HunanasesuRhCT**

# DATGANIAD YR ARWEINYDD

Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod yn lle gwych i fyw, mwynhau a gwneud busnes. Bwrdeistref Sirol o gymunedau cryf a bywiog, pobl frwdfrydig a thalentog o bob oed, gallu a chefndir a thirweddau cyfoethog ac amrywiol gyda photensial enfawr i fanteisio ar economi werdd a chynaliadwy sy'n tyfu.

**Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar ein pedwar Amcan Llesiant:**




Rydyn ni'n adeiladu ar y partneriaethau rydyn ni wedi'u datblygu, gan gryfhau perthnasoedd lle rydyn ni'n gallu cefnogi ein pobl, ein cymunedau a'r llu o wahanol grwpiau cymunedol. Gyda'n gilydd rydyn ni'n gallu creu datrysiadau a fydd yn helpu i sicrhau deilliannau gwell a gallwn rannu'r cyfrifoldeb am helpu pobl yn ein cymunedau sydd angen cymorth. Drwy wneud hynny, mae modd i ni ganolbwyntio ein cymorth ar y rhai sydd â'r angen mwyaf am ofal a chymorth i helpu i feithrin eu cydnerthedd fel eu bod nhw'n gallu gwneud dewisiadau gwell drostyn nhw eu hunain a helpu ein pobl ifainc i gyflawni eu potensial.

Un o'n heriau mwyaf yw paratoi ar gyfer a mynd i'r afael ag effaith y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r camau i fynd i'r afael â'r her yma'n gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig ond rydyn ni wedi ymrwymo i leihau carbon ar draws y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol, gan barhau i ymgorffori arbed ynni a lleihau carbon ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae ein cyfraniadau at fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a byd natur datganedig Llywodraeth Cymru yn dod yn rhan o fusnes bob dydd yn ein holl wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys yr hyn rydyn ni'n ei brynu neu ei gomisiynu ar ran y Cyngor ac yn ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid rhanbarthol a lleol.

Mae'r Newid yn yr Hinsawdd yn un ymysg llawer o heriau allweddol sy'n ein hwynebu wrth inni fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'n Hunanasesiad. Mae'r heriau yma'n cynnwys rheoli ein ffordd drwy'r anawsterau ariannol presennol a'r rhai sydd i ddod wrth gadw staff profiadol a medrus, yn enwedig yn ein sector gofal cymdeithasol, wrth i ni wynebu galwadau cynyddol gan boblogaeth ag anghenion mwy cymhleth a chysylltiedig.

Er y byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein costau ein hunain mor isel ag y gallwn, i gwrdd â'n dyletswyddau statudol a'n disgwyliadau rheoleiddiol, nid oes modd dianc rhag y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Cyngor ac i Rondda Cynon Taf.

Mae'n amlwg, er mwyn i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau hanfodol, sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau Rhondda Cynon Taf, bydd angen i ni newid y ffordd rydyn ni'n ymgysylltu ac yn gweithio gyda'n trigolion, cymunedau a busnesau i ddeall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a newid y ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau. Ar yr un pryd, mae modd i breswylwyr helpu trwy chwarae eu rhan gartref ac yn eu cymunedau.

A. Morgan

**Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE**
Arweinydd CBS Rhondda Cynon Taf

ADRAN 1

# CYFLWYNIAD

**Croeso i drydydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r cynllun yn nodi lle byddwn ni'n canolbwyntio ein gwaith hyd at 2030, a'r deilliannau y gallwch chi ddisgwyl eu gweld, oherwydd ein gwaith fel Cyngor ac yn ein gwaith gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill.**

Mae'r Cynllun wedi'i strwythuro o gwmpas pedwar amcan llesiant a fydd yn ein helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Rhondda Cynon Taf.



## POBL A CHYMUNEDAU

Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn.



## GWAITH A BUSNES

Helpu i gryfhau a thyfu economi RhCT.



## BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.



## DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.

Does dim modd i gynllun unigol nodi'r ystod eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, eu caffael neu eu comisiynu, naill ai fel un sefydliad neu mewn partneriaeth ag eraill. Mae ein gwaith yn cael ei lywodraethu gan lawer o gyfreithiau a rheoliadau sydd, er enghraifft, yn gwirio ein bod ni'n gwario ein harian yn ddoeth a'n bod ni'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i wella deilliannau i drigolion.

➔ **Bydd y gwaith yn y cynllun hwn yn cael ei adlewyrchu a'i alinio â chynlluniau, strategaethau a pholisïau eraill y Cyngor. Mae modd gweld y rhai mwyaf perthnasol o'r rhain yma.**
**www.rctcbc.gov.uk/StrategaethaurCyngor**

# FFYRDD O WEITHIO

**Wrth osod ein Hamcanion Llesiant, rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bydd ein cynlluniau yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Rhondda Cynon Taf heddiw ac rydyn ni'n ystyried yr effaith y bydd y rhain yn eu cael ar bobl sy'n byw eu bywydau yn y dyfodol.**

**Rydyn ni wedi gwneud hyn drwy gymhwyso 'pum ffordd o weithio' yn ein cynllunio, h.y.**

1. **CYNNWYS...**
   **pobl lleol ac ystod o randdeiliaid a chynghorwyr wrth lunio ein cynllun.**
   Rydyn ni wedi bod yn gwrando ar yr hyn y mae ein trigolion o bob oed, cymunedau, partneriaid, a staff yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd hyn yn parhau wrth i ni ddatblygu camau gweithredu yn y dyfodol. Gwnaethon ni hefyd edrych ar wybodaeth ac adborth o amrywiaeth o arolygon, sesiynau ymgysylltu a sgyrsiau parhaus a gynhaliwyd ar draws ein gwasanaethau dros y deunaw mis fel ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth rydych chi eisoes wedi'i dweud wrthym ni. Mae ein Cynllun yn rhoi cipolwg o'r wybodaeth rydyn ni wedi'i defnyddio.

2. **GWEITHIO GYDAG ERAILL...**
   **lle mae modd i ni chwilio am gyfleoedd pellach wrth i ni roi'r Cynllun ar waith dros y blynyddoedd i ddod.**
   Mae ein Cynllun yn rhoi rhai enghreifftiau o le rydyn ni eisoes yn gweithio gyda phartneriaid a bydd rhagor o fanylion i'w gweld yn ein cynlluniau blynyddol.

3. **EDRYCH TUA'R DYFODOL...**
   **ar ein heriau a'n cyfleoedd.**
   Rydyn ni wedi defnyddio'r data a'r wybodaeth orau y gallwn ni ddod o hyd iddyn nhw ac wedi ceisio cyngor ynghylch sut rydyn ni'n ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Mae ansicrwydd ynghylch y tymor hir, ond rydyn ni wedi cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth rydyn ni wedi'i defnyddio i lywio ein hamcanion ac i ddiogelu'r dyfodol.

4. **INTEGREIDDIO.**
   Wrth i ni ddatblygu ein Cynllun, fe wnaethon ni ystyried gwaith sefydliadau eraill fel ein bod ni'n ei ategu ac nid yn gwrth-ddweud nac yn dyblygu gwaith. Yn benodol, cyfreithiau a chynlluniau Llywodraeth Cymru a rhai ein partneriaid lleol a rhanbarthol. Rydyn ni wedi cynnwys rhai o'r 'sbardunau cenedlaethol' yma y mae angen inni eu hystyried.

5. **ATAL.**
   Fe wnaethon ni edrych ar sut mae modd i ni atal problemau rhag digwydd neu waethygu ar draws pob un o'n Hamcanion Llesiant wrth i ni baratoi ar gyfer y dyfodol. Enghraifft dda o hyn yw gweithio gyda phartneriaid i helpu i gadw pobl yn iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd fel eu bod nhw'n wynebu llai o risg o afiechyd. Bydd llawer o'n gwaith manwl yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau blynyddol.

Mae'r ffyrdd yma o weithio yn ein helpu i ddangos ein bod ni'n bodloni'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni ddangos sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol i Gymru.

➔ **Gallwch weld bod y nodau cenedlaethol yma wedi llywio ein gwaith a sut y bydd ein Hamcanion Llesiant yn eu cyflawni yma.**
**www.rctcbc.gov.uk/LlywioNodauLlesiantCenedlaethol**

Fe wnaethon ni hefyd...

- **EDRYCH...**
  am ac archwilio'r wybodaeth a'r data gorau sydd ar gael am y Fwrdeistref Sirol, a'i thrigolion a'i chymunedau yng nghyd-destun y blaenoriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang sylweddol a chystadleuol presennol.

- **YMCHWILIO...**
  arfer gorau i herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud wrth i ni ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o safon gyda'n trigolion a'n cymunedau ac ar eu cyfer.

- **ADOLYGU...**
  ein cyflawniadau a'n cynnydd ein hunain dros oes ein Cynllun Corfforaethol blaenorol 2020-24 'Gwneud Gwahaniaeth', ein risgiau strategol a'n Hunanasesiad blynyddol ac fe wnaethon ni ystyried ein hadroddiadau cynnydd chwarterol. Mae'r Hunanasesiad hefyd yn cynnwys ystyriaeth o werthusiadau o'n holl wasanaethau ac asesiad o'n swyddogaethau corfforaethol.

- **YSTYRIED...**
  y meysydd gwaith hynny y mae'n rhaid i ni eu cyflawni'n gyfreithiol a'r rhai rydyn ni wedi ymrwymo iddyn nhw drwy bartneriaethau, gan gynnwys trwy Gynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2023-28.

## MAE'R CYNLLUN YMA'N DARPARU'R FFRAMWAITH A FYDD...

- **Yn arwain ac yn llywio'r hyn rydyn ni'n ei wneud.**
- **Yn cyfeirio sut a ble rydyn ni'n gwario ein cyllid.**
- **Yn rheoli ac yn lliniaru risgiau strategol.**
- **Yn llywio sut rydyn ni'n hyfforddi ac yn datblygu ein staff a Chynghorwyr i fodloni heriau cyfredol a heriau'r dyfodol.**

## HERIAU MEGIS...

- Bregusrwydd cynyddol a chymhlethdod anghenion ar draws ein poblogaeth, a'r nifer o bobl sy'n profi iechyd gwael ac anghenion gofal a chymorth dwys.
- Yr angen i ddenu buddsoddiad, swyddi o ansawdd uchel a chefnogi'r economi gwyrdd wrth fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym meysydd iechyd, addysg, gwaith a gwella cyfleoedd bywyd ein holl breswylwyr, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
- Yr effaith y mae achosion o dywydd eithafol yn ei chael ar fywydau a'r risg i gartrefi a busnesau.
- Mynd i'r afael â chostau ynni sy'n cynyddu a diogelwch ynni, a phrisiau uwch oherwydd materion sy'n effeithio ar y gadwyn gyflenwi.

➔ **Mae rhagor o wybodaeth am sut y byddwn ni'n monitro cynnydd ein Cynllun Corfforaethol ar gael yma.**
**www.rctcbc.gov.uk/TrefniadauRheoliCyflawniadCorfforaethol**

# 2 ADRAN

# YNGLŶN Â RHONDDA CYNON TAF



**Rhondda Cynon Taf yw'r Cyngor mwyaf namyn dau yng Nghymru, ac mae'r ardal wedi'i ffurfio o nifer o gymunedau ag anghenion a dymuniadau gwahanol. Mae'r ardal yn cynnwys cyfran gymharol uchel o'n poblogaeth sy'n byw yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gennym hefyd ardaloedd mwy cefnog ar draws tirwedd ddaearyddol a diwylliannol amrywiol.**

Gwyddom o'r cannoedd lawer o sgyrsiau ac ymatebion arolwg rydyn ni wedi'u casglu gan drigolion, grwpiau cymunedol, busnesau, ymwelwyr a phartneriaid, fod cannoedd lawer o safbwyntiau, syniadau, anghenion a disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd i'w rheoli. Gyda chyllidebau dan bwysau a galwadau ar ein gwasanaethau ar gynnydd, rydyn ni'n cydnabod yr angen i ddatblygu a rheoli disgwyliadau realistig trwy fagu partneriaethau cryfach.

Rhaid i'n cynlluniau hefyd gydnabod natur tymor byrrach ein cynllunio ariannol. Ar hyn o bryd rydyn ni mor glir â phosibl ynghylch y cyllidebau a'r adnoddau sydd ar gael i ni wrth osod ein blaenoriaethau. Bydd ein camau gweithredu manwl a'n targedau yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n flynyddol yn unol â'n Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig. Byddwn ni hefyd yn parhau i chwilio am unrhyw gyfleoedd am arian grant i'n helpu i wneud mwy.

Er hyn, rydyn ni'n parhau i fod yn uchelgeisiol, ac rydyn ni'n gwybod bod modd i ni barhau i wella drwy wneud pethau'n wahanol a gwneud gwell defnydd o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ganolbwyntio mwy ar ddeilliannau i'n trigolion a'n cymunedau. Mae gwneud pethau'n wahanol yn golygu gwahodd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf, ac sy'n ymweld ag ef, i chwarae rhan fel bod modd i bawb elwa.

Trwy gydweithio'n agosach, grymuso a galluogi cymunedau a gweithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, bydd modd i ni gyflawni mwy o'r hyn sy'n bwysig, cefnogi gwell deilliannau i'r rhai sydd fwyaf angen ein cymorth a pharhau i gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol.

**Mae'r dull yma'n adeiladu ar ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf sydd eisoes wedi gweld gwaith i wella:**

- parciau a mannau gwyrdd, cyfleusterau hamdden a ffitrwydd y gall pobl eu defnyddio i gadw'n heini ac yn iach;
- mannau creadigol a chymunedol sy'n cefnogi llesiant unigolion ac sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau o ran iechyd ac anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd;
- cyfleusterau lle mae modd i bobl ailgylchu mwy o'u gwastraff ac anfon yr hyn nad oes ei angen arnyn nhw mwyach i bobl eraill ei ailddefnyddio;
- cymorth blynyddoedd cynnar sy'n helpu rhieni i gael plant yn barod ar gyfer meithrinfa ac ysgol fel bod modd iddyn nhw elwa ar y cyfleoedd i ddysgu trwy chwarae;
- datblygiadau canol tref sy'n darparu lle sy'n addas i bobl fyw, gweithio, ymweld a siopa'n lleol a chefnogi busnesau lleol a'r economi leol.




**4,556** MWh o ynni adnewyddadwy trwy gynhyrchu egni solar ffotofoltäig ers 2019

**97** Cae Gwair

**4** Gwobr y Faner Werdd

**13** Llyfrgell

**27** Canolfan Gymunedol

**7** Canol Tref gyda Wi-Fi Am Ddim

**51** Llwybr bws

**75,000** tunnell o wastraff a ailgylchwyd yn 2023/24

**6** Siop Ailddefnyddio yn cael eu rhedeg gan y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r Cyngor

**12** o Gyfleusterau Hamdden gan gynnwys **8** Pwll Nofio yn ogystal â Lido Cenedlaethol Cymru

**216** Man Chwarae

**11** Maes Criced

**3** Amgueddfa

**25** Cae Chwarae Artiffisial

**3** Theatr

**6** Canolfan Ailgylchu Cymunedol

**5** Gorsaf Fysiau

**115** Ysgol gan gynnwys **17** Ysgol Cyfrwng Cymraeg

**114** Cilfach Gwefru Cerbydau

**7** Canolfan Gymunedol

**109** Cilometr o Lwybrau Teithio Llesol

*Ar 31 Mawrth 2024*

3 ADRAN

# GWELEDIGAETH A PHWRPAS

**Gweledigaeth y Cyngor yw sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn lle sy'n caniatáu'r canlynol:**

*Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.*

**Dyma fwriad y Cyngor a'r rheswm dros ei fodolaeth...**

*Darparu arweinyddiaeth gymunedol a chynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan weithio'n ochr yn ochr â thrigolion, cymunedau a'n partneriaid er mwyn i bobl, busnesau, a'r amgylchedd ffynnu.*





4 ADRAN

# EIN DULL A'N GWERTHOEDD

## Ein Dull...

*Mae ein Cynllun newydd yn adeiladu ar sail gadarn ein dau Gynllun blaenorol. Er mwyn cyflawni'r hyn y mae ein Cynllun newydd yn ei nodi, mae angen i'n staff, Cynghorwyr, trigolion, cymunedau a phartneriaid weithio tuag at yr un cyfeiriad i wireddu ein gweledigaeth gyffredin. Mae'r heriau a wynebir yn y dyfodol ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn golygu bod angen, mwy nag erioed, staff a chynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda, yn wybodus ac yn cael eu cefnogi a all ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau o fewn rhaglen uchelgeisiol o waith. Wrth i gyllidebau'r sector cyhoeddus barhau dan bwysau ac wrth i'r galw ar ein gwasanaethau gynyddu, mae'r angen i weithio gyda chymunedau ac ar draws ffiniau sefydliadol i sicrhau'r deilliannau gorau i'n trigolion, nawr ac yn y dyfodol, yn fwy nag erioed.*

## Ein Gwerthoedd

*Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein gwaith ac yn gosod safonau uchel ac uchelgeisiau i'n hunain i'w cyflawni er mwyn cael effaith gadarnhaol i bawb yn Rhondda Cynon Taf.*

### EIN RÔL YNG NGHYNLLUN LLESIANT CWM TAF MORGANNWG

A ninnau'n aelod gweithgar o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus lleol i gyflawni'r ddau Amcan Llesiant y cytunwyd arnyn nhw gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg - Cwm Taf Morgannwg

1. **Cymdogaethau Lleol Iach:**
   Cwm Taf Morgannwg lle mae ein cymunedau yn gynhwysol ac yn teimlo'n gydlynol a phobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.
2. **Cymdogaethau Lleol Cynaliadwy a Chydnerth:**
   Cwm Taf Morgannwg lle rydyn ni'n deall ac yn ymateb i berygl newid hinsawdd i'n cymunedau. Er mwyn gwneud hyn rhaid inni werthfawrogi, rheoli a mwynhau ein mannau gwyrdd a glas yn gyfrifol.

→ **www.bwrddgwasanaethaucyhoeddusctm.cymru/cwm-taf-morgannwg-well-being-plan-1**

→ **Mae enghreifftiau eraill o ble rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill i'w gweld yma: www.rctcbc.gov.uk/gweithiogydageraill**

5 ADRAN

# GWRANDO AR YR HYN RYDYCH CHI'N EI DDWEUD A'I GLYWED

**Rydyn ni'n ceisio barn a safbwyntiau ein trigolion o bob oed, grwpiau cymunedol, busnesau a staff yn rheolaidd wrth i ni gynnal busnes y Cyngor.**

Mae hyn yn golygu bod gennyn ni wybodaeth ac adborth o'r sgyrsiau ac arolygon niferus rydyn ni wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf neu ddwy sydd wedi helpu i lywio a llunio'r Cynllun yma. Er enghraifft, adborth a barn am osod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24; Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor 2022-37, y Strategaeth Perygl Llifogydd, Strategaeth Canol Tref Aberdâr sy'n canolbwyntio ar leoedd, cynigion cydgynhyrchu ar gyfer gwasanaeth yn ystod y dydd yn dilyn 'Fy Niwrnod i, Fy Ffordd i', 'Eich Llais Chi' arolwg o bobl ifainc, ein 'Sgwrs am yr Hinsawdd ', y broses ymgysylltu eang yn rhan o Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg, yn ogystal â llawer o sesiynau ac arolygon ymgysylltu penodol i wasanaethau.

## BETH WNAETHON NI?

Fe ddefnyddion ni'r wybodaeth roeddech chi eisoes wedi'i rhoi i ni fel man cychwyn i ddechrau llunio ein Cynllun.

**Fe wnaethon ni sefydlu sgwrs newydd 'Dewch i Siarad Am Beth sy'n Bwysig i Chi' i wirio ein bod ni ar y trywydd iawn ac yna fe wnaethon ni roi cyfleoedd ehangach i bawb ystyried y manylion.**

O'r ymatebion a gawsom ni, roedd y mwyafrif, dros 87%, yn meddwl ein bod ni'n canolbwyntio ar y meysydd cywir neu ein bod ni'n canolbwyntio ar y meysydd cywir ar y cyfan ond bod lle i wella. Roedd yr hyn a ddysgon ni o'r sgwrs yma'n rhoi rhywfaint o sicrwydd inni ein bod ni wedi gwneud cychwyn cadarn o'r adeg honno.

Gan ddefnyddio'r adborth yma a gwybodaeth arall, gwnaethon ni ddrafftio amlinelliad o Gynllun Corfforaethol newydd gan gynnwys Gweledigaeth, Amcanion Llesiant ac ymrwymiadau i drigolion newydd. Roedd ein Cynllun Corfforaethol amlinellol yn sail i ymgysylltu eang â'n trigolion, grwpiau cynrychioliadol, a rhanddeiliaid gan gynnwys staff, Cynghorwyr, Undebau Llafur a phartneriaid. Roedd yr ymgysylltu'n cynnwys arolygon ar-lein, trafodaethau wyneb yn wyneb yng nghanol ein trefi, grwpiau ffocws a thrafodaethau yn rhan o gyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd y darparwyd 'pecynnau ymgysylltu' safonol, dwyieithog a hawdd eu darllen ar eu cyfer.

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

## BETH DDYWEDOCH CHI WRTHYM NI...

Dangosodd adborth o'r sgyrsiau, cyfarfodydd ac arolygon i ni pa mor gryf rydych chi'n teimlo am wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol a faint maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi yn ein cymunedau.

**Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi ein Gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant. Serch hynny, rydyn ni hefyd wedi ystyried adborth a geisiodd gynnwys y Gymraeg yn ein Hamcan Llesiant ar gyfer Diwylliant a Threftadaeth er mwyn dangos ymhellach ein hymrwymiad cryf i'r Gymraeg.**

Mae'r adborth yma wedi rhoi sicrwydd i ni am ein Gweledigaeth ddrafft, y pedwar Amcan a Blaenoriaeth Llesiant a'r ymrwymiadau i'n trigolion, ond dydyn ni ddim yn hunanfodlon. Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi rhywfaint o bryder ynghylch a oedd y Cynllun yn rhy uchelgeisiol o ystyried yr heriau ariannol sydd o'n blaenau a'r angen i weld rhagor o wybodaeth wrth i fanylion y cynlluniau ddod i'r amlwg. Nododd lleiafrif o'r ymatebion, o'r pedwar Amcan Llesiant, y dylai Pobl a Chymunedau a Gwaith a Busnes gael eu blaenoriaethu dros Fyd Natur a'r Amgylchedd a Diwylliant a Threftadaeth. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, ni chymerodd rhai grwpiau cynrychioliadol ran yn yr ymarferion ymgysylltu, a byddwn ni'n parhau i geisio eu cynnwys wrth i ni ddatblygu'r camau manwl ar gyfer y cynllun.



Mae adborth cryno yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phob un o'r Amcanion Llesiant. Bydd adborth manwl ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau mwy cyffredinol yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu'r camau manwl i gyflawni'r cynllun dros y chwe blynedd nesaf. Byddwn ni hefyd yn parhau i ymgysylltu â'n trigolion a'n rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith yma. Byddwn ni hefyd yn ceisio eu barn ynghylch a yw ein gwaith wedi gwneud y gwahaniaeth a chael yr effaith a fwriadwyd.

## YR HYN RYDYN NI WEDI EI DDYSGU...

rydyn ni wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar y **PEDWAR AMCAN LLESIANT** ydych chi wedi dweud wrthon ni sydd bwysicaf i chi ac a fydd yn ein paratoi ni i gyd yn well ar gyfer y dyfodol:

### EIN HAMCANION LLES:

**POBL** A **CHYMUNEDAU**
Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.

**GWAITH** A **BUSNES**
Helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.

**BYD NATUR** A'R **AMGYLCHEDD**
RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.

**DIWYLLIANT, TREFTADAETH** A'R **GYMRAEG**
Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.

**Wrth arwain a llywio ein gwaith ar gyfer y chwe blynedd nesaf bydd y cynlluniau gweithredu manwl a fydd yn ein helpu i fesur ein cynnydd, yn gwreiddio'r materion mawr hynny sy'n effeithio ar bob gwasanaeth.**

Er enghraifft, mynd i'r afael â phob math o dlodi, trin pobl yn deg, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, cadw ein plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n wynebu risg yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

Rydyn ni'n gwybod y bydd llawer o'r materion mawr yma'n cael yr effaith fwyaf ar grwpiau o bobl sydd eisoes dan anfantais. Er enghraifft, mae pobl hŷn a phobl agored i niwed yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis cyfnodau o wres eithafol, llygredd aer a digwyddiadau tywydd eithafol eraill, oherwydd cyfuniad o oedran, problemau iechyd a mwy o arwahanrwydd cymdeithasol. Mae tlodi yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles, deilliannau addysgol a deilliannau eraill ym mywydau plant a theuluoedd. Mae pobl ag anableddau yn llai tebygol o fod mewn swydd ac mae'r rhai ar incwm isel yn profi mwy o broblemau tai. Wrth ddatblygu a chyflawni ein cynlluniau manwl, byddwn ni'n effro i'r materion yma ac yn gwrando ar ein trigolion a'n cymunedau ac yn gweithio gyda nhw, yn enwedig y rhai sydd ddim yn cael eu clywed yn aml a/neu sydd â'r angen mwyaf.

Mae'r pedwar Amcan Llesiant yn torri ar draws pob gwasanaeth yn fwriadol. Bydd llawer o'r blaenoriaethau ategol y maen nhw'n cynnwys o fudd i fwy nag un amcan Llesiant wrth i'n gwasanaethau gydweithio i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

Rydyn ni hefyd yn paratoi ein gwasanaethau i gydymffurfio â chyfreithiau newydd rydyn ni'n disgwyl i gael eu gweithredu yn y misoedd nesaf, er enghraifft Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal a Diogelwch tomenni glo.

# POBL A CHYMUNEDAU

## HELPU I LUNIO'R AMCAN LLESIANT YMA

## DYWEDODD TRIGOLION WRTHYM NI BETH SY'N BWYSIG IDDYN NHW...

**Gofal a chymorth ar gyfer ein pobl ifainc a'n pobl hŷn, a bod mynediad at addysg o ansawdd da i bawb yn parhau i fod yn flaenoriaeth.**

Roedden nhw hefyd am weld datblygiad cymunedol gyda gwasanaethau hygyrch lleol a chymorth i wella iechyd a lles unigolion. Roedden nhw am weld cartrefi o ansawdd da, sy'n fwy fforddiadwy a gwell effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi presennol.

## MAE EIN DATA YN CYNNWYS...

**239,018**
**CYFANSWM Y BOBLOGAETH:**
65 oed a hŷn: **47,329** (19.8%)
*Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2022 Stats Cymru*

**DISGWYLIAD OES:**
**Gwryw:**
**77.0** oed
Disgwyliad oes Iach:
57.1 mlynedd
**Benyw:**
**80.5** years
Disgwyliad oes iach:
60.7 mlynedd
*Disgwyliad oes iach yw'r gyfran o fywyd mewn iechyd da*

Mae
**26.7%**
o bobl yn RhCT ag anableddau

Mae
**68.5%**
o bobl yn RhCT yn berchen ar eu cartref eu hunain
gyda morgais neu heb forgais

Mae
**13.7%**
yn rhentu tai cymdeithasol

Mae
**17.7%**
yn rhentu tai preifat.

Mae
**8,461** (22.0%)
o ddisgyblion yn RhCT yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
Yng Nghymru: **20.3%**
*Data o Ganlyniadau Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2023, Llywodraeth Cymru*

*Mae'r holl ddata yn cyfeirio at RhCT ac yn cael eu cymryd o Gyfrifiad 2021 oni nodir yn wahanol*






## MAE TUEDDIADAU'R DYFODOL YN AWGRYMU...

### ERBYN 2030...

**3.4%** o gynnydd
yn y boblogaeth gyda RhCT yn parhau i fod yr Awdurdod Lleol (ALl) mwyaf ond dau yn ôl poblogaeth yng Nghymru.

**11.7%** o gynnydd
yn y boblogaeth 65 oed a hŷn (52,884)

**O'r rhai mae...**

**6,573** yn 85 oed neu'n hŷn
(21.5% o gynnydd)

*Amcanestyniadau poblogaeth fesul Awdurdod Lleol a blwyddyn yn seiliedig ar 2018, StatsCymru*

**33%** o gynnydd
yn nifer yr achosion o strôc erbyn 2035

**70%** o gynnydd
yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia erbyn 2040

*Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru. Medi 2023.*

### ERBYN 2043...

**27%** o gynnydd mewn
aelwydydd un person

**25%** o gynnydd mewn
aelwydydd 1 oedolyn â phlant

**16%** o ostyngiad mewn
aelwydydd 2 oedolyn â phlant

*Amcanestyniadau am aelwydydd fesul Awdurdod Lleol, math o aelwyd a blwyddyn yn seiliedig ar StatsCymru 2018.*

## CYFARWYDDIADAU CENEDLAETHOL MAE'N RHAID I NI EU DILYN, NEU EU HYSTYRIED YN EIN GWAITH....

→ www.rctcbc.gov.uk/CefnogiPoblaChymunedau

# DYMA EIN **BLAENORIAETHAU:**



## 1 Mae plant a phobl ifainc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i ddysgu a thyfu'n ddiogel,

a) Cynorthwyo plant a theuluoedd i gael y cyfleoedd gorau i ddatblygu, bod yn iach, a mwynhau gweithgareddau mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.


b) Helpu plant o bob gallu a chefndir i wneud y gorau y gallen nhw yn yr ysgol, gan ganolbwyntio ar welliant parhaus a safonau uchel.

c) Nodi a diwallu anghenion ein disgyblion a'u teuluoedd cyn gynted â phosibl.

ch) Darparu amgylcheddau dysgu gwych trwy leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion newydd a gwell, gan gynnwys ysgol arbennig newydd a gwneud addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb.

d) Cefnogi plant a phobl ifainc o bob gallu a chefndir i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi, fel bod modd iddyn nhw gyflawni eu deilliannau addysgol gorau.

e) Sicrhau bod gan blant, pobl ifainc a'u teuluoedd lais a'u bod nhw'n helpu i lunio a gwella ein gwasanaethau a'n profiadau addysgol.



## 2 Mae modd i drigolion ofalu am eu hiechyd a'u lles a byw bywydau iach, annibynnol a boddhaus,

a) Helpu ein holl drigolion i gadw'n iach ac yn heini gyda chyfleoedd i ddysgu ac ymuno mewn gweithgareddau hamdden, corfforol a chreadigol.

b) Edrych ar y ffordd orau i ni gymhwyso'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol.

c) Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd ehangach sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfleoedd bywyd ein trigolion trwy'r Gydweithfa Ymchwil ar Faterion Iechyd.

ch) Galluogi pobl i arwain, dylanwadu, gwirfoddoli ac ymgysylltu â chymunedau a grwpiau cymunedol cryf a chydnerth.

d) Gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac yn rhydd rhag trosedd.

dd) Helpu cymunedau, y trydydd sector a'r sector busnes i gydweithio mewn gwahanol ffyrdd i gefnogi tyfu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.

e) Datblygu ysgolion bro sy'n darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, er mwyn diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.



## 3 Diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed o bob oed, gan ddarparu amddiffyniad, gofal a chymorth pan maen nhw ei angen fwyaf fel bod modd iddyn nhw wneud y gorau o'u potensial,


a) Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned ac yn agos i'w cartrefi drwy ddarparu'r cymorth a'r gofal cywir ar yr amser cywir.

b) Darparu llety modern sy'n diwallu anghenion pobl sydd ddim yn gallu byw gartref mwyach.

c) Diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed, esgeulustod a chamfanteisio.

ch) Cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan/sy'n profi trais yn y cartref neu sy'n gaeth i alcohol/cyffuriau.

d) Rhoi'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifainc agored i niwed a sicrhau mynediad i amgylcheddau diogel a chefnogol sy'n addas i'w hanghenion, er mwyn gwella eu llesiant.



## 4 Bydd gan drigolion fynediad i gartrefi fforddiadwy ac ynni-effeithlon, sydd o ansawdd da.

a) Gweithio gyda phartneriaid i helpu i ddarparu cartrefi fforddiadwy a chynaliadwy, rhoi cymorth i bobl ddigartref ac adnewyddu eiddo gwag er mwyn ei ail-ddefnyddio.

b) Galluogi rhagor o bobl i fyw mewn cartrefi cynnes ac ynni-effeithlon sy'n gwella eu hiechyd a'u lles ac sy'n eu helpu i fyw'n fwy cynaliadwy.



# RHAI O'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N DISGWYL EU GWELD ERBYN 2030

**Bydd presenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad ym mhob un o'n hysgolion...**
yn parhau i ddangos cynnydd cryf, gan gymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Gymru, gyda gwell deilliannau addysgol, cyfleoedd o ran gwaith a hyfforddiant ar gyfer ein disgyblion sy'n gadael yr ysgol.

**Bydd gan deuluoedd fwy o gydnerthedd.**
Bydd llai o blant yn 'derbyn gofal' yn ein gofal a bydd ganddyn nhw well cyfleoedd mewn bywyd.

**Bydd mwy o'n trigolion...**
yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol i gadw'n heini ac yn iach a lleihau eu risg o afiechyd.

**Bydd plant yn ein gofal...**
yn derbyn gofal yn nes at eu cartref ac yn cadw cysylltiad â'u teuluoedd, ffrindiau a chymunedau.

**Gwasanaethau cydgysylltiedig gwell...**
ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn cael y gofal cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir.

**Llai o bobl...**
yn cael eu heffeithio gan/yn profi trais domestig neu'n mynd yn gaeth i gyffuriau neu alcohol.

**Mwy o dai fforddiadwy...**
a llai o dai gwag.

**Bydd gan lai o gartrefi yn RhCT...**
gyfraddau ynni islaw Tystysgrif Cyflawniad Ynni D.






## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA...

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg...**
**a phartneriaid eraill i wella iechyd a llesiant ein trigolion, gan gynnwys cysylltu'r gofal y maen nhw'n ei dderbyn ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.**
Wrth gryfhau cydweithio rydyn ni am weld llai o bobl yn mynd i'r ysbyty a bod y rhai sydd angen gofal yn ei dderbyn yn brydlon yn eu cymunedau ac yn treulio llai o amser yn yr ysbyty.

**Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Prawf a phartneriaid eraill...**
i leihau trosedd ac anhrefn yn ein hardal fel bod ein cymunedau yn rhydd rhag trosedd ac yn rhydd rhag ofn o drosedd.

➔ Dyma enghreifftiau eraill o le rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill:
**www.rctcbc.gov.uk/gweithiogydageraill**

# GWAITH A BUSNES

## HELPU I LLUNIO'R AMCAN LLESIANT YMA

### DYWEDODD TRIGOLION WRTHYM NI BETH SY'N BWYSIG IDDYN NHW...

**Cyfleoedd hygyrch ar gyfer gwaith diogel, hyfforddiant a chymorth i bobl fod yn hunangyflogedig.**

Maen nhw am weld dulliau cydgysylltiedig o drafnidiaeth gyhoeddus. Roedden nhw hefyd eisiau gweld gwelliannau ar draws ein holl ganol trefi fel eu bod nhw'n fwy deniadol ac yn annog mwy o bobl i ymweld. Pethau fel gwneud defnydd o eiddo gwag a chefnogi busnesau bach lleol i ffynnu.

### MAE EIN DATA'N CYNNWYS...

Mae gan **26.7%** bobl radd neu gymhwyster Lefel 4 cyfatebol

Nid oes gan **24.2%** bobl unrhyw gymwysterau

Mae **23.8%** o bobl 16 i 64 oed yn RhCT yn economaidd anweithgar (ddim mewn gwaith nac yn chwilio am waith)

*Anweithgarwch economaidd, proffil awdurdod lleol NOMIS, Medi 2022*

**7,020** o fusnesau gweithredol

*Mentrau Gweithredol yn ôl ardal a blwyddyn yn 2021, StatsCymru*

Mae **169** o fentrau cymdeithasol yn gweithredu yn RhCT

*Mentrau cymdeithasol yn RhCT, Cwmpas*

Mae **43,100** o bobl yn teithio y tu allan i RhCT i weithio

*Patrymau cymudo fesul awdurdod lleol yng Nghymru 2022, StatsCymru*

Does gan **22.2%** o aelwydydd ddim car na fan

*Mae'r holl ddata yn cyfeirio at RhCT ac yn cael eu cymryd o Gyfrifiad 2021 oni nodir yn wahanol.*





### MAE TUEDDIADAU'R DYFODOL YN AWGRYMU...

**Lleihad** yn y nifer o bobl sy'n economaidd weithgar ar ôl 2028

*Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021, Pecyn Tystiolaeth, Llywodraeth Cymru*

**Lleihad** yn argaeledd swyddi sy'n gofyn am lefel isel o sgiliau oherwydd cynnydd mewn technolegau awtomataidd

*Global Megatrends: Shaping the Future of societies, economics and values, Copenhagen Institute for Futures Studies*

### CYFARWYDDIADAU CENEDLAETHOL MAE'N RHAID I NI EU DILYN, NEU EU HYSTYRIED YN EIN GWAITH....

→ www.rctcbc.gov.uk/CefnogiGwaithaBusnes

# DYMA EIN BLAENORIAETHAU:



## 1 Rhoi cymorth i bobl i ddilyn llwybrau gyrfa gwerth chweil, sy'n arwain at waith medrus a diogel

a) Rhoi cymorth i bobl o bob oed i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer swyddi yn ein cymunedau lleol a gweithio gyda busnesau lleol a darparwyr hyfforddiant i nodi cyfleoedd priodol ar eu cyfer.

b) Rhoi cymorth i bobl sy'n profi tlodi 'mewn gwaith' i ddod o hyd i waith mwy gwerth chweil a diogel.

c) Darparu cymorth a datrysiadau i bobl sy'n wynebu rhwystrau i waith i symud ymlaen i swyddi neu waith gwirfoddol.

ch) Arwain trwy esiampl trwy ddarparu profiad, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn y Cyngor yn enwedig ar gyfer pobl ifainc a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i waith.

d) Gweithio gyda'n cyflenwyr i gynyddu'r Gwerth Cymdeithasol a'r buddion Cymunedol ar gyfer ein holl gontractau, er enghraifft trwy swyddi, profiad gwaith a hyfforddiant.

dd) Nodi a chefnogi datblygu swyddi a sgiliau yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd e.e. mewn technolegau newydd a datblygol.



## 2 Rhoi cymorth i fusnesau i ffynnu a bod yn gynaliadwy.

a) Galluogi busnesau i ddod o hyd i'r cyngor a'r cymorth cywir i'w helpu i foderneiddio, bod yn gynaliadwy a manteisio ar gyfleoedd newydd a marchnadoedd sy'n datblygu.

b) Cynyddu ein gwariant lleol a chefnogi mentrau cymdeithasol.

c) Parhau i ddefnyddio ein tirwedd naturiol a threftadaeth i hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth newydd yn RhCT a chefnogi twf cynaliadwy.

ch) Cefnogi datblygiad yr economi gylchol ledled y Fwrdeistref Sirol, fel bod trigolion yn gallu rhannu, ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu deunyddiau a chynhyrchion presennol cyhyd â phosibl.

d) Gweithio gyda phrifysgolion a cholegau, busnesau a'r trydydd sector i rannu gwybodaeth a chefnogi arloesedd a chynaliadwyedd busnesau.





## 3 Canol trefi sy'n ffynnu

a) Cyflwyno prosiectau adfywio sy'n helpu i greu canol trefi bywiog lle mae busnesau'n ffynnu a phobl eisiau ymweld â nhw.

b) Datblygu mannau cyhoeddus o ansawdd uchel a gwella canol trefi sy'n helpu i wella iechyd, llesiant a natur e.e. plannu coed a sicrhau bod mannau gwyrdd.

c) Ehangu ein 'cynnig' yng nghanol ein trefi, gan gynnwys cynnal achlysuron lleol a dathlu diwylliant a threftadaeth.

ch) Rhoi cyfleusterau yn eu lle i'r trigolion eu defnyddio i wneud eu hymweliadau â chanol trefi yn fwy cyfforddus a chyfleus.





## 4 Bwrdeistref Sirol sydd â chysylltiadau da

a) Cefnogi datblygiad teithio carbon isel a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

b) Ceisio cyllid a gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael i gefnogi llwybrau trafnidiaeth leol/cymunedol lle mae amodau'n caniatáu.

c) Annog a galluogi teithiau teithio llesol trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, cefnogi ffyrdd iach o fyw a gwella ansawdd yr aer.

ch) Cynnal a gwella ein seilwaith priffyrdd fel ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol, yn cadw pobl a chymunedau yn gysylltiedig, yn gallu cymdeithasu a dysgu ac yn cadw busnesau i symud.

d) Gwella gysylltedd digidol ledled y Fwrdeistref Sirol, gan groesawu patrymau gwaith a ffyrdd o fyw newidiol.



# RHAI O'R **DEILLIANNAU** RYDYN NI'N DISGWYL EU GWELD **ERBYN 2030**

**Canol trefi...**
gyda busnesau ffyniannus sy'n helpu i gefnogi'r economi.

**Mae seilwaith a systemau trafnidiaeth gyhoeddus...**
yn fwy cydgysylltiedig ac yn annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio.

**Mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan...**
sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar safleoedd y Cyngor er mwyn cynorthwyo teithio carbon isel.

**Mwy o fusnesau...**
yn cael eu cefnogi i ddatblygu, moderneiddio a thyfu.

**Bydd gan fwy o bobl yn RhCT...**
y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddod o hyd i waith a symud ymlaen o fewn eu swyddi.

**Bydd mwy o bobl yn ymweld â RhCT...**
o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mwynhau'r diwylliant, natur, gweithgaredd a thwristiaeth antur sydd gan RhCT i'w gynnig.



## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA...

Prifddinas Ranbarth Caerdydd

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**
a'i Gydbwyllgor a busnesau i hyrwyddo llesiant economaidd ledled y Brifddinas-Ranbarth, a gweithio'n fwy lleol gyda busnesau drwy'r Ardaloedd Gwella Busnes i annog busnesau canol trefi i fod yn fwy cynaliadwy a hyrwyddo'r defnydd o'r economi gylchol.

➔ Dyma enghreifftiau eraill o le rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill: **www.rctcbc.gov.uk/gweithiogydageraill**

# BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

## HELPU I LLUNIO'R AMCAN LLESIANT YMA



## DYWEDODD TRIGOLION WRTHYM NI BETH SY'N BWYSIG IDDYN NHW...

**Gwelliannau yng nglanweithdra strydoedd ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys cymryd camau cryfach i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol fel sbwriela, perchnogion cŵn anghyfrifol a thipio anghyfreithlon.**

Roedden nhw am weld biniau cyhoeddus yn cael eu gwagio'n fwy rheolaidd er mwyn annog dinasyddiaeth dda. Roedden nhw hefyd am weld mannau gwyrdd gwell, afonydd glân, mwy o fioamrywiaeth, trafnidiaeth carbon isel a llai o goed yn cael eu torri i lawr.

## MAE EIN DATA'N CYNNWYS...

Ailgylchwyd **67.23 %** o wastraff yn 2022/23
*Data Cyngor RhCT, 2023-24*

Mae **16** o Ardaloedd Monitro Ansawdd Aer (AQMAs)
*Data Cyngor RhCT, 2023-24*

Mae **44%** o bobl yn byw mewn ardal lle mae perygl llifogydd
*Data Cyngor RhCT, 2023-24*

Mae pob trigolyn yn creu **3.8 tCO2e** o allyriadau carbon
*Infobase Cymru, 2020*

Mae **2** Ardal Cadwraeth Arbennig
*Cyfoeth Naturiol Cymru, 2023*

Mae **14 SoDdGA** Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
*Cyfoeth Naturiol Cymru, 2023*

## MAE TUEDDIADAU'R DYFODOL YN AWGRYMU...

**Cynydd** yn nhymeredd cyfartalog yr haf o

**1.34°c** erbyn 2050

**3.03°c** erbyn 2080

*Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021, Pecyn tystiolaeth. Llywodraeth Cymru*

**Cynydd** yn y lefelau gwaddodiad a rhagamcanir o

**5%** erbyn 2050


**9%** erbyn 2080

*Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021, Pecyn tystiolaeth. Llywodraeth Cymru*

## CYFARWYDDIADAU CENEDLAETHOL MAE'N RHAID I NI EU DILYN, NEU EU HYSTYRIED YN EIN GWAITH....

→ www.rctcbc.gov.uk/CefnogiNaturacAmgylchedd

# DYMA EIN BLAENORIAETHAU:



## 1 Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol


a) Diogelu, cefnogi a gweithio gyda byd natur i fynd i'r afael ag argyfyngau'r Hinsawdd a Byd Natur.

b) Gwarchod ein coed presennol ac ehangu coetir trwy adfywio naturiol a phlannu coed trefol.

c) Lleihau allyriadau carbon a chynyddu mesurau dal carbon a hybu byd natur trwy ail-wlychu ac adfer ein mawnogydd.

ch) Gwella ansawdd yr aer trwy reoli traffig, annog y defnydd o opsiynau teithio carbon isel a gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

d) Rheoli tir y sector cyhoeddus i gefnogi prosiectau cynaliadwy gan gynnwys cynhyrchu 'ynni gwyrdd', storio carbon, rheoli perygl llifogydd a chynyddu bioamrywiaeth a thyfu bwyd yn y gymuned.



## 2 Rhondda Cynon Taf Glân, Diogel a Chynaliadwy

a) Cadw'r Fwrdeistref Sirol yn lân ac iach a'n strydoedd yn rhydd o sbwriel, baw cŵn a pharhau i gryfhau ein hymateb i droseddau amgylcheddol.

b) Gweithio gyda'n partneriaid i wneud y mwyaf o gyfleoedd i atgyweirio ac ailgylchu eitemau a lleihau ac ailddefnyddio gwastraff.

c) Darparu cyfleoedd creadigol i bobl gyfrannu at gymunedau glân a gwyrdd.

ch) Cyfeirio trigolion at fwy o wybodaeth a gwell gwybodaeth am sut mae modd defnyddio llai a gwastraffu llai.

d) Defnyddio dulliau sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn foesegol o waredu deunyddiau a adferwyd o'n gwastraff.

dd) Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i reoli diogelwch tomennydd glo.

e) Rheoli effaith tywydd garw ar ein hamgylcheddau lleol.



## 3 Defnyddio cyfoeth byd natur er budd pobl a chymunedau

a) Gwneud y defnydd gorau o ddatrysiadau naturiol a chynaliadwy i leihau perygl llifogydd a llygredd a rheoli dŵr wyneb.

b) Parhau i fuddsoddi mewn ynni solar ar draws ein hysgolion ac adeiladau'r Cyngor yn ogystal â datblygu cynhyrchu ynni drwy ynni'r haul, gwynt, trydan dŵr a dŵr geothermol/pyllau glo, i wresogi ac oeri cartrefi a busnesau.

c) Gweithio gyda phartneriaid a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i greu a chyflwyno Cynllun Ynni Ardal Leol i lywio penderfyniadau ar gyflenwad a defnydd o ffynonellau ynni gwahanol.

ch) Rhoi cyfleoedd i drigolion a chymunedau dyfu eu bwyd eu hunain mewn rhandiroedd a gerddi cymunedol.

d) Darparu amrywiaeth o fannau gwyrdd o safon i bobl a chymunedau eu mwynhau.



# RHAI O'R **DEILLIANNAU** RYDYN NI'N DISGWYL EU GWELD **ERBYN 2030**

**Gwell ansawdd aer...**
ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Pobl a chymunedau...**
sy'n gallu cadw'n heini ac iach yn ein mannau gwyrdd.

**Mae bywyd gwyllt yn ffynnu...**
ar dir y Cyngor sy'n cael ei reoli mewn ffordd gadarnhaol.

**Mae cymunedau'n cael eu cefnogi...**
i wneud mwy i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu a byw'n gynaliadwy.

**Mae pobl yn mwynhau...**
strydoedd glân, yn rhydd o drosedd amgylcheddol.

**Mae mwy o ynni gwyrdd...**
yn cael ei gynhyrchu o 'ynni adnewyddadwy'.





## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA...

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg...**
i roi Asesiad Risg Hinsawdd Cwm Taf Morgannwg ar waith fel bod modd i ni asesu risgiau lleol sy'n debygol o godi o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn well.

**Partneriaeth Natur Leol Rhondda Cynon Taf...**
i gynllunio a chyflawni gweithredu dros fyd natur ledled y Fwrdeistref Sirol.

→ Dyma enghreifftiau eraill o le rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill: **www.rctcbc.gov.uk/gweithiogydageraill**

# DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

## HELPU I LLUNIO'R AMCAN LLESIANT YMA

### DYWEDODD TRIGOLION WRTHYM NI BETH SY'N BWYSIG IDDYN NHW...

**Cydnabyddiaeth bod diwylliant a threftadaeth yn torri ar draws popeth rydyn ni'n ei wneud, mae'n cefnogi pob agwedd ar lesiant ac yn dod â phobl a chymunedau ynghyd**

Mae'n bwysig ein bod ni'n cofio ac yn gwarchod traddodiadau'r gorffennol ond hefyd yn creu cyfleoedd newydd cyffrous i bobl eu mwynhau heddiw ac yn y dyfodol. Roedd adborth yn awgrymu bod modd cynnwys y Gymraeg yn yr Amcan Llesiant gwreiddiol o ran Diwylliant a Threftadaeth.

### MAE EIN DATA'N CYNNWYS...

Mae **64%** o drigolion RhCT yn gwylio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn

*Arolwg Cenedlaethol Cymru – Celfyddydau, Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd a Lleoedd Hanesyddol (2022-23)*

Mae **81** o blaciau glas y Cyngor yn coffáu bywydau unigolion ac adeiladau o bwys hanesyddol ledled RhCT

*Data'r Cyngor, Mawrth 2024*

Mae **43,179** o bobl yn gallu naill ai siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg

Mae **187,137** o bobl heb unrhyw sgiliau Cymraeg

*Mae'r holl ddata yn cyfeirio at RhCT ac yn cael eu cymryd o Gyfrifiad 2021 oni nodir yn wahanol.*



### MAE TUEDDIADAU'R DYFODOL YN AWGRYMU...

**Cynnydd** byd-eang mewn unigrwydd a datgysylltu gan arwain at...

**Lleihad** mewn ymgysylltiad dinesig, gwanhau cydlyniant cymdeithasol gan wneud pobl yn fwy agored i begynu.

*Adroddiad Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig: The Landscape of Development, 2024*

Mae **cynnydd** yng nghyfradd twf siaradwyr Cymraeg ar ei uchaf yn ardaloedd awdurdodau lleol y De a'r De Ddwyrain

Cymraeg


*Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, Cymru, 2023*

### CYFARWYDDIADAU CENEDLAETHOL MAE'N RHAID I NI EU DILYN, NEU EU HYSTYRIED YN EIN GWAITH....

➔ www.rctcbc.gov.uk/CefnogiDiwylliantaThreftadaeth

# DYMA EIN BLAENORIAETHAU:







## 1 Mae diwylliant a threftadaeth yn fywiog, a bod gwahaniaethau'n cael eu dathlu mewn cymunedau cadarn sy'n hybu llesiant, trwy

a) Adeiladu ar etifeddiaeth yr Eisteddfod er budd ein cymunedau a'n busnesau.

b) Parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel ei bod yn ffynnu yn ein cartrefi, ein cymunedau a'n gwaith.

c) Cydnabod a gwella ein hymwybyddiaeth o amrywiaeth yn ein cymunedau fel ein bod ni'n cryfhau cydlyniant cymunedol ac yn diwallu anghenion ein trigolion o bob cefndir yn well.

ch) Ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu gweithgareddau ar y cyd yn ein theatrau, amgueddfeydd a mannau creadigol eraill trwy ddull hygyrch a chynhwysol sy'n croesawu pob diwylliant.

d) Datblygu partneriaethau traws-sector cryfach sy'n gwerthfawrogi effeithiau cadarnhaol diwylliant a threftadaeth gan gynnwys ar iechyd a llesiant, sgiliau, gwaith a bywyd cymunedol.

dd) Datblygu Prosiectau Rhwng Cenedlaethau i hybu dysgu a rhannu sgiliau, annog cyfeillgarwch rhwng cenedlaethau a helpu i leihau unigrwydd.

e) Gweithio gydag ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ystyried yr arlwy ddiwylliannol ar draws ein canol trefi, gan ddatblygu a hyrwyddo ystod o achlysuron celfyddydol a diwylliannol cynhwysol a fydd yn gwasanaethu cymunedau lleol ac ehangach ledled De-ddwyrain Cymru.

f) Cryfhau Cyfamod Lluoedd Arfog Cymunedol RhCT.



## 2 Dathlu a diogelu treftadaeth ddiwylliannol, ddiwydiannol a byd chwaraeon Rhondda Cynon Taf, drwy

a) Diogelu a hyrwyddo hanes RhCT ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy addysg, cadwraeth a choffáu drwy:
- Nodi, recordio a rhannu hanes RhCT
- Cydnabod, cadw, gwarchod a chroesawu treftadaeth ddiwydiannol RhCT gan gynnwys drwy ddigideiddio, rheoli arteffactau a diogelu henebion.

b) Cysylltu cymunedau trwy dreftadaeth a hanes lleol.

c) Tynnu sylw at bobl ysbrydoledig y gorffennol a'r presennol o Rondda Cynon Taf i annog dyhead ac uchelgais ein plant a'n pobl ifainc.





# RHAI O'R **DEILLIANNAU** RYDYN NI'N DISGWYL EU GWELD **ERBYN 2030**

Cymraeg

**Mae mwy o bobl...**
yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

**Mae pobl yn teimlo eu...**
bod nhw'n 'perthyn' yn eu cymunedau, yn cyd-dynnu'n dda ac yn trin ei gilydd â pharch.

**Mwy o gyfleoedd...**
i drigolion o bob oed a chefndir 'gysylltu' drwy'r celfyddydau, llyfrgelloedd a gweithgareddau ac achlysuron cymunedol.

**Cyfleoedd i drigolion...**
hyrwyddo a mynegi eu diwylliant, eu treftadaeth a rhannu ymrwymiad i fywydau cynaliadwy drwy gymuned gelfyddydol lewyrchus.

**Mae mwy o bobl...**
yn uniaethu â'r hanes a luniodd Rhondda Cynon Taf heddiw ac mae ganddyn nhw gysylltiad â'r gorffennol.

**Mae cymuned y Lluoedd Arfog...**
yn cael ei chefnogi gan y gymuned ehangach.







## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA...

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

**Cyngor Celfyddydau Cymru...**
i gysylltu â chymunedau, sicrhau bod y celfyddydau ar gael i bobl o bob oed a chefndir eu mwynhau a chymryd rhan ynddyn nhw.

Cardiff Capital Region
CREATIVE CARDIFF CAERDYDD CREADIGOL
University of South Wales Prifysgol De Cymru

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Caerdydd Creadigol a Prifysgol De Cymru...**
i gynyddu sgiliau'r sector creadigol yn RhCT.

awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

**Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen...**
i gyflawni'r gwaith o ailddatblygu'r 'Miwni', Canolfan Gelfyddydau'r Miwni ym Mhontypridd a chefnogi diwydiannau creadigol lleol a chenedlaethol.

➔ Dyma enghreifftiau eraill o le rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill:
**www.rctcbc.gov.uk/gweithiogydageraill**

7 ADRAN

# CYNGOR SY'N CAEL EI REDEG YN DDA

**Dim ond Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda sy'n gallu cyflawni ein pedwar amcan Llesiant a'n blaenoriaethau.**

Mae hynny'n golygu Cyngor sydd â diwylliant sefydliadol cadarnhaol, sy'n gwerthfawrogi ei staff, yn rheoli ei adnoddau'n gynaliadwy ac yn ddoeth ac sy'n ceisio gwella'n barhaus yr hyn a wnawn i gael yr effaith fwyaf ar drigolion.

## EIN HADDEWIDION I CHI

**Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud...**

- **Cyflawni ein blaenoriaethau gwella...** ac yn ymdrechu i gyrraedd ein holl dargedau a byddwch chi'n gallu ein dwyn ni i gyfrif drwy lywodraethu da a democratiaeth leol.
- **Arwain trwy esiampl...** yn dangos arweinyddiaeth gymunedol sicr a byddwn ni'n agored ynglŷn â'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu a'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid i ni eu gwneud.
- **Rhoi trigolion a chwsmeriaid wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud...** a'n holl benderfyniadau trwy ymgysylltu mwy ystyrlon a chynhwysfawr.
- **Gweithio gyda phartneriaid ym mhob sector...** fel ein bod ni'n cydgysylltu ein gwasanaethau, yn gwneud bywyd yn haws i'n trigolion a'n cymunedau ac yn sicrhau deilliannau gwell iddyn nhw.
- **Gweithio gyda thrigolion a chymunedau...** ar atebion sy'n diwallu eu hanghenion yn well ac yn rhannu cyfrifoldeb er mwyn sicrhau deilliannau gwell gyda'n gilydd.
- **Rheoli ein gweithlu, cyllidebau, tir, adeiladau, fflyd a gwybodaeth...** i wneud y mwyaf o'n heffeithlonrwydd a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'n cymunedau, byd natur a'r amgylchedd.
- **Lleihau Ôl Troed Carbon y Cyngor...** ac yn dod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030.
- **Bod yn onest gyda'n trigolion a'n rheolyddion...** ynglŷn â'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a'r hyn mae angen i ni wneud yn well.
- **Rhoi cynlluniau ar waith i ofalu a chynnal cymunedau...** mewn sefyllfaoedd brys pan maen nhw'n digwydd.
- **Cymryd camau...** yn erbyn y rhai sydd ddim yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n cefnogi ein trigolion i fwynhau Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol.
- **Trin pawb â pharch...** waeth beth fo'u cefndir.
- **Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal...** a darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr yn eu dewis iaith.
- **Gweithio gyda chymunedau lleol a grwpiau cymunedol...** i wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl.

RHONDDA CYNON TAF

## EIN HADDEWID I STAFF

**Byddwn ni'n...**

- **Rhoi cyfle cyfartal i bawb...** fel bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod modd iddyn nhw gyrraedd eu llawn dwf.

➔ Mae ymrwymiad y Cyngor i'w staff a'n cymunedau wedi'i nodi'n llawn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun y Gweithlu.
**www.rctcbc.gov.uk/CynllunGweithlu**
**www.rctcbc.gov.uk/CynllunCydraddoldebStrategol**

## EIN HADDEWID I BARTNERIAID

**Byddwn ni'n...**

- **Bod yn bartneriaid ymroddedig a gweithgar yn ein gwaith gydag eraill...** gan ymgeisio a herio lle mae modd inni ychwanegu mwy o ddeilliannau a gwell deilliannau i'n trigolion, cymunedau a busnesau drwy gydweithio.

➔ Gallwch chi weld mwy am ein dull gweithio gydag eraill...
**www.rctcbc.gov.uk/gweithiogydageraill**



1 ATODIAD

# ATODIAD

**Bydd deilliannau, mesurau a thargedau yn cael eu hadolygu, eu herio a'u hadnewyddu'n flynyddol yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol, i wneud yn siŵr eu bod yn berthnasol ac yn addas i'r diben ac yn helpu i ddangos ein cynnydd.**

**Bydd gwybodaeth/data yn llywio datblygiad y Dangosfwrdd Adrodd Corfforaethol newydd o 2024.**

## POBL A CHYMUNEDAU

- Cynnydd % presenoldeb mewn ysgolion cynradd/uwchradd a darpariaeth Uned Atgyfeirio Disgyblion/addysg heblaw yn yr ysgol.
- Llai o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn y cyfnod cynradd/uwchradd.
- Mae mwy o'r sawl sy'n gadael ysgol yn mynd i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Cyflawniadau addysgol gwell i blant a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.
- Mwy o bobl yn gwneud rhywfaint o ymarfer corff.
- Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.
- Mwy o Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu lleoli 'yn nes at adref'.
- Cynyddu % y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd sy'n lleihau, cynnal neu liniaru'r angen am gymorth.
- Cynyddu nifer y taliadau uniongyrchol.
- Cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy.
- Lleihau nifer yr eiddo gwag.

## GWAITH A BUSNES

- Mwy o bobl yn cael eu helpu i gael gwaith.
- Llai o eiddo gwag yng nghanol ein trefi.
- Mwy o bobl yn ymweld â chanol ein trefi (cynnydd yn nifer yr ymwelwyr).
- Cynnydd yn nifer y cilomedrau o lwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref sirol.
- Cynnydd yn argaeledd pwyntiau gwefru cerbydau trydan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

## BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

- 30% o RCT yn cael ei reoli'n gadarnhaol er lles bywyd gwyllt.
- Cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau faint sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Mwy o ynni adnewyddadwy lleol yn cael ei gynhyrchu o dir neu adeiladau'r Cyngor.

## DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

- Cyfrannu at darged cenedlaethol Llywodraeth Cymru o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y nodir yn Cymraeg 2050.
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT o 12.4% (cyfrifiad 2021).

## BOD YN GYNGOR EFFEITHLON AC EFFEITHIOL

**Erbyn 2030 byddwn ni'n...**

- Gyngor Carbon Niwtral.
- Cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Sector Cyhoeddus Sero Net.